**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Diolch ichi am Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a gyhoeddwyd ar 27 Ionawr ynglŷn â Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a hynny yn rhan o broses graffu Cyfnod 1.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol yn ystod Cyfnod 1. Rwyf wedi ystyried argymhellion y pwyllgor a'i ystyriaethau o'r Bil yn ofalus.

Fel yr amlinellwyd yn ystod y Ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1 a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023, tynnaf eich sylw at fy ymateb i'r gyfres o argymhellion sydd yn yr adroddiad.

Regards,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) - Mawrth 2023**

**Argymhelliad 1.** Ni ddylai unrhyw Fil Amaethyddiaeth dilynol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fod yn Fil fframwaith ac, o’r herwydd, ni ddylai gynnwys pwerau dirprwyedig helaeth i Weinidogion Cymru a fyddai’n nodi mewn rheoliadau fanylion polisi a ddylai ymddangos ar wyneb y Bil.

Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cynrychioli cam cyntaf ein rhaglen o ddiwygio amaethyddol, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid a ffermwyr ar ein cynigion tymor hir. Bydd yn rhaid i unrhyw Fil Amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried materion sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw gan gynnwys er enghraifft goblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) Llywodraeth y DU. Pan fydd rhagor o wybodaeth am unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gael, bydd y manylion diweddaraf yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 2.** Dylai’r Gweinidog nodi’n glir pa bolisi y mae’n bwriadu ei gwmpasu yn y Bil Amaethyddiaeth nesaf i’w gyflwyno i’r Senedd a dyddiad tebygol ei gyflwyno

Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cynrychioli cam cyntaf ein rhaglen o ddiwygio amaethyddol, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid a ffermwyr ar ein cynigion tymor hir gan gynnwys yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth nesaf. Bydd yn rhaid i unrhyw Fil Amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried materion sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw gan gynnwys er enghraifft goblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) Llywodraeth y DU. Pan fydd rhagor o wybodaeth am unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gael, bydd y manylion diweddaraf yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i’r Gweinidog roi safbwynt mwy pendant ynghylch sut y bydd y Bil yn cael ei effeithio gan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) erbyn dechrau’r trafodion Cyfnod 3 (yn amodol ar y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol).

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru’n ystyried sut bydd yn ymateb i'r sefyllfa, a grëwyd, i bob pwrpas, gan Lywodraeth y DU ynghylch adolygu Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU, a bydd, os yn bosibl, yn rhoi barn fwy diffiniol erbyn dechrau trafodion cyfnod 3.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu bwriad Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn ei hanfod. Byddai'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi llunio'r Bil yn cael gwared ar amddiffyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol.

`

| |
|---|
| **Argymhelliad 4.** Dylai’r Gweinidog egluro pam na fanteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle ar wyneb y Bil i gadw, diwygio neu ddileu’r gyfraith ym maes amaethyddiaeth sydd wedi’i chynnwys ar hyn o bryd mewn cyfraith yr UE a ddargedwir. |
| **Derbyn**<br><br>Fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae gan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir bwerau y gallai Llywodraeth Cymru eu harfer i gadw Cyfraith yr UE a Ddargedwir mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru’n ystyried sut y bydd yn ymateb i'r Bil hwn a bydd yn cydweithio â Llywodraeth y DU i nodi'r holl Gyfreithiau datganoledig yr UE a Ddargedwir, gan gynnwys yr offerynnau hynny a wnaed gan Lywodraeth y DU a'r Senedd.<br><br>Diben y Bil Amaethyddiaeth yw creu darpariaeth rheoli tir cynaliadwy gwnaed-yng-Nghymru hirdymor na fydd yn dibynnu ar Gyfraith yr UE a Ddargedwir. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai’r Gweinidog ddatgan yn glir a fydd effeithiolrwydd unrhyw un o ddarpariaethau’r Bil yng Nghymru (pe byddai’n cael ei basio a’i ddeddfu) yn ddibynnol ar unrhyw un o ofynion Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, neu’n cael eu heffeithio ganddynt. |
| **Derbyn**<br><br>Fel y nodwyd yn glir gydol proses gymeradwyo Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), safbwynt Llywodraeth Cymru yw y gall y Senedd ddeddfu'n rhydd o ofynion Deddf Marchnad Fewnol y DU.<br><br>Felly, ni fydd effeithiolrwydd y Bil hwn yng Nghymru yn ddibynnol ar ddarpariaethau'r Ddeddf honno nac yn cael ei effeithio ganddynt. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno diwygiadau i’r Bil i fewnosod adrannau trosolwg o fewn Rhannau 1, 2 a 3 y Bil fel modd o egluro’n glir bwrpas pob Rhan a’r hyn y mae’n ceisio ei gyflawni |
| **Heb ei dderbyn**<br><br>Ystyriwyd cynnwys darpariaethau trosolwg ar gyfer Rhannau 1, 2, a 3 o'r Bil fel rhan o ddatblygiad y Bil, gan gydnabod y gall darpariaethau trosolwg fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo hygyrchedd, yn enwedig lle mae darpariaethau'n ddwys yn ôl eu natur, er enghraifft wrth ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol (fel gyda Rhannau 4 a 5 o'r Bil hwn).<br><br>Ar gyfer y Bil hwn, ystyriwyd bod trosolwg (ar gyfer Rhannau 1, 2 a 3) yn ddiangen gan y byddai'n ychwanegu fawr ddim neu ddim o gwbl at gynnwys y Bil ac efallai y byddai ganddo ganlyniadau anfwriadol. Bydd y Memorandwm Esboniadol, fodd bynnag, yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru, fel y bo'n briodol, i roi eglurder pellach. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno diwygiadau i’r Bil i fewnosod adrannau trosolwg o fewn Rhannau 1, 2 a 3 y Bil fel modd o egluro’n glir bwrpas pob Rhan a’r hyn y mae’n ceisio ei gyflawni |
| |

`

**Heb ei dderbyn**

Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) yn cael ei ddisgrifio'n glir ac yn benodol yn y Bil gan y pedwar amcan RhTG a'r ddyletswydd RhTG (adrannau 1 i 3). Roedd yr amcanion yn gosod fframwaith clir ac uchelgeisiol ar gyfer polisi amaethyddol yng Nghymru, gan roi'r ffocws ar gamau i gyfrannu at gynhyrchu bwyd cynaliadwy, mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd brys, gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol a gwella mynediad atynt a hyrwyddo a chynnal y Gymraeg. Mae amcanion RhTG yn darparu dull gwnaed-yng-Nghymru, i Gymru, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y dylai'r sector amaethyddol fod yn eu darparu ar gyfer y rhai sy'n gweithio ein tir ac ar gyfer poblogaeth ehangach Cymru. Rwyf am i'r cynllun RhTG fod yn rhywbeth y gellir ei roi ar waith ac iddo gyflawni dros Gymru.

Mae'r ddyletswydd RhTG yn pennu sut caiff yr amcanion eu cymhwyso ac mae'n gosod trothwy uchel fel bod rhaid i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau perthnasol yn y ffordd y maent yn ystyried yr hyn sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion (i'r graddau y maent yn cyd-fynd â'r broses o arfer y swyddogaeth yn briodol). Yn y modd hwn, nid yw'r amcanion na'r ddyletswydd yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru, ond yn canolbwyntio yn hytrach ar arfer rhai swyddogaethau, fel, er enghraifft, y pŵer i roi cymorth, er mwyn cyfrannu at sicrhau canlyniadau penodol.

Mae'r ddyletswydd a'r amcanion yn berthnasol i amrywiaeth eang iawn o swyddogaethau ac yn mynd i'r afael â materion cymhleth, sylfaenol bwysig a pharhaus. Mae'n briodol, fel y mae darpariaethau RhTG yn ei wneud, i sefydlu amcanion clir i fynd i'r afael â'r materion hynny, ochr yn ochr â dyletswydd gref sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu mewn ffordd gytbwys ac uchelgeisiol.

Er bod nifer o sylwadau ac awgrymiadau manwl ar gyfer gwelliannau, rwy'n falch o nodi bod adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn esbonio bod y pedwar amcan RhTG wedi'u croesawu'n gyffredinol gan randdeiliaid (paragraff 76) ac nad ydynt wedi argymell diffiniad o reoli tir yn gynaliadwy ar wyneb y Bil.

Mae amcanion RhTG a'r ddyletswydd yn sefydlu dull pwrpasol sy'n benodol i Gymru sydd wedi'i lywio (ymysg pethau eraill) gan ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig, a ddatblygwyd yn y cyd-destun deddfwriaethol penodol yng Nghymru, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a thrwy ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.

Mae'r darpariaethau RhTG yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn cyd-fynd â nhw, ac mae hynny'n bwysig. Yn benodol, mae'r darpariaethau'n cyd-fynd â'r diffiniad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (adran 3, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) sy'n mynd ymlaen drwy gyfeirio at yr amcan a bennir yn adran 3(2) y Ddeddf honno. Mae'r dull gweithredu'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd ac yn cyd-fynd â hi, gan gynnwys yn benodol adran 3(2) o'r Ddeddf honno, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd â'r nod o wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant wrth gyflawni datblygiadau cynaliadwy.

`

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog adolygu Rhan 1 o'r Bil i ystyried a fyddai'n elwa o gael mwy o fanylion yn egluro sut y bydd y system newydd o reoli tir yn gynaliadwy yn gweithredu'n ymarferol ac ar y cyd â Rhan 2, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliannau a fydd yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch i randdeiliaid

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r darpariaethau RhTG yn berthnasol i amrywiaeth eang iawn o swyddogaethau ac yn mynd i'r afael â materion cymhleth, sylfaenol bwysig a pharhaus. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu bwyd, yr argyfyngau natur a hinsawdd brys a'r Gymraeg. Mae'r darpariaethau'n darparu fframwaith clir ac uchelgeisiol gyda dyletswydd gref ar Weinidogion Cymru i gymryd camau y maent yn ystyried sy'n cyfannu orau at gyflawni'r amcanion. Nid yw'n bosibl deddfu i ddiffinio'n fanylach sut gall y darpariaethau weithredu'n ymarferol ar draws yr amrywiaeth eang o swyddogaethau amaethyddol y byddant yn gymwys iddynt, ac yn yr amrywiaeth eang o amgylchiadau a all godi. Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cefnogaeth amserol ac effeithiol, sy'n gallu ymateb i anghenion newidiol y diwydiant ffermio a'i gadwyni cyflenwi.

Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru, fel y bo'n briodol, i roi eglurder pellach ar y berthynas rhwng Rhan 1 a Rhan 2 o'r Bil i randdeiliaid.

Y prif fecanwaith cyflawni ar gyfer RhTG; mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n parhau i gael ei gynllunio a chynhelir ymgynghoriad arno eleni. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi eglurder pellach am sut y bydd y cynllun yn gweithredu ac yn ei dro sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog, cyn i'r trafodion Cyfnod 3 ddechrau, ddarparu rhestr i'r Pwyllgor hwn a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r sefydliadau y mae'n bwriadu ymgynghori â nhw yn rheolaidd o dan adran 5(3) o'r Bil

**Derbyn**

Dywed adran 5(3)(b) bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol" (hynny yw, yn ychwanegol at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (adran 5(3)(a)). Gall ymgynghoreion newid dros amser, er enghraifft wrth i reolaeth tir newid a/neu yn dibynnu ar ganlyniadau'r adroddiadau RhTG.

Bydd Gweinidogion Cymru'n ymgysylltu â'r sefydliadau hynny sydd yn y sefyllfa orau i gynnig cyngor ar baratoi a diwygio dangosyddion a thargedau. Bydd y gwaith o bennu dangosyddion a thargedau RhTG a'r gwaith o'u hadolygu wedi

`

| |
|---|
| hynny, yn broses ailadroddol sy'n golygu y gallai fod angen ymgynghori â gwahanol sefydliadau ar adegau gwahanol.<br><br>Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi syniad nad yw'n gynhwysfawr o'r sefydliadau rwy'n bwriadu ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses o baratoi dangosyddion a thargedau RhTG o dan adrannau 4 a 5 o'r Bil ynghyd â syniad o'r math o ddangosydd a tharged y byddwn yn gofyn iddynt ymgynghori arnynt:<br><br>• Swyddfa'r Prif Filfeddyg – mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid a rheoli clefydau.<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru – cyngor cyffredinol, gwirio a monitro, cymorth Adroddiadau ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd.<br>• Comisiynydd y Gymraeg - yn gyffredinol ac mewn perthynas â darpariaeth y Gymraeg.<br>• Cadw – ystyriaethau adnoddau diwylliannol a threftadaeth<br>• Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - casglu data ac ystyriaethau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)<br>• Sefydliadau academaidd – ar gyfer cyngor penodol a chymorth gwaith ymchwil<br>• Cyrff sy'n cynrychioli'r sector – mewn perthynas â phynciau penodol i'r sector.<br><br>Fel y nodwyd uchod, bydd y rhestr hon yn newid o bryd i'w gilydd yn dibynnu ar y dangosyddion a'r targedau RhTG sy'n cael eu hystyried ac fel y mae amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 8 o’r Bil yn nodi’r sail lawn ar gyfer darparu cymorth a’r amcanion y mae’n anelu at eu cyflawni wrth ddarparu’r cymorth hwnnw |
| **Heb ei dderbyn**<br><br>Mae'r dibenion fel y'u nodir yn adran 8 yn rhoi enghreifftiau o'r meysydd blaenoriaeth lle gellir darparu cymorth.<br><br>Ni ystyrir ei bod yn briodol creu rhestr gynhwysfawr o ddibenion gan y gallai hyn gyfyngu ar y cwmpas y gellid darparu cefnogaeth ar ei gyfer heb ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel achosion newydd o glefydau egsotig neu ryfel neu argyfwng arall yn y farchnad. Gallai atal cefnogaeth rhag cael ei ddarparu yn y dyfodol o bosibl hefyd mewn ymateb i ddatblygiadau mewn arferion amaethyddol, datblygiad polisi neu ganlyniadau anochel newid hinsawdd.<br><br>Mae'r dibenion a nodir yn adran 8 yn rhoi syniad o'r math a'r ystod o gefnogaeth a gynigir, er enghraifft a gefnogir o dan y CFfC. Y bwriad yw mai'r CFfC fydd y prif gynllun cymorth a gaiff ei greu o dan y pŵer i ddarparu cymorth ar y cychwyn, ond efallai nad dyma'r unig gynllun cymorth gan fod y pŵer yn golygu y gellir darparu cymorth gan sawl cynllun neu fel arall.<br><br>Mae’r pŵer i ddarparu cymorth yn rhoi'r hyblygrwydd i ddarparu cymorth (yn ariannol neu fel arall) lle bo angen ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol neu mewn cysylltiad â'r meysydd hynny. Ni fyddai'n bosibl felly i'r ddarpariaeth fanylu ar sail lawn y cymorth. |

`

| |
|---|
| **Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 10 o'r Bil, yn nodi diben ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei darparu a'r meini prawf neu'r cyfyngiadau sy'n berthnasol wrth weithredu pŵer i wneud rheoliadau. |
| **Heb ei dderbyn**<br><br>Mae gwelliant i adran 10 o'r Bil yn cyflwyno'r diben o'i gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodedig gael ei darparu, yn ddiangen. Mae adran 10(1) i (3), ynghyd â'r eglurhad manwl a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol ym Mharagraffau 3.100 i 3.103, eisoes yn rhoi digon o fanylion eisoes, er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder priodol y ddarpariaeth.<br><br>Mae'r Memorandwm Esboniadol ym mharagraff 3.101, yn darparu enghreifftiau o'r math o wybodaeth sydd i'w chyhoeddi, fel y cyhoeddir o dan gynlluniau cymorth amaethyddol presennol ar hyn o bryd. Er enghraifft, enw masnachu'r busnes, pedwar digid cyntaf eu cod post, ac mae ond yn berthnasol lle mae'r cymorth a dderbyniwyd wedi mynd y tu hwnt i swm penodol, sydd wedi'i bennu'n £1,250 ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio hefyd beth nad yw'n fwriad i adran 10 ei gynnwys, er enghraifft, nid oes bwriad i gyhoeddi data am gyfanswm y symiau a dalwyd o dan y pŵer i ddarparu cymorth, ar y sail y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn darparu'r wybodaeth hon.<br><br>Bydd unrhyw reoliadau sy'n deillio o hynny yn destun craffu cadarn gan y Senedd gan fod y pŵer i reoleiddio'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae mwy o fanylion yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil am reoliadau i'w gwneud mewn perthynas â chosbau ariannol o dan adran 31 na'r hyn a gynhwysir mewn perthynas â'r rheoliadau i'w gwneud am gosbau ariannol o dan adran 11 |
| **Derbyn**<br><br>Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i adran 11, sydd *"ar gyfer adfer symiau sy'n ddyledus mewn perthynas â chosbau ariannol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llog, gosod yn erbyn a diogelwch ar gyfer talu;"*. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol yn 11(2)(i) ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer gwneud rheoliadau mewn perthynas â gwirio cymhwysedd ar gyfer cymorth, ac ati, yn ddigon eang fel y gellir adfer unrhyw symiau sy'n ddyledus yn erbyn cosbau ariannol<br><br>Fodd bynnag, o ran y manylion yn adran 31, barn Llywodraeth Cymru yw nad yw'r manylion hyn yn angenrheidiol at ddiben adran 11. Mae adran 31(3)(a) yn gwbl wahanol oherwydd natur benodol y darpariaethau casglu data. Mae'n canolbwyntio ar orfodi gofynion gwybodaeth am beidio â chydymffurfio a'r ddarpariaeth o osod cosbau ariannol yng nghyswllt hynny. Mae hyn yn wahanol i'r orfodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gwirio cymhwysedd am gymorth, sy'n ymwneud â chydymffurfio. |
| **Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn rhoi |

mwy o fanylion am y polisïau sy’n sail i bwnc adran 11 (gan gynnwys nodi diben gwirio cymhwysedd i dderbyn cymorth) yn ogystal ag unrhyw feini prawf neu gyfyngiadau a ddylai fod yn berthnasol i wneud rheoliadau (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â phwerau mynediad a chosbau ariannol).

**Heb ei dderbyn**

Nid yw'n briodol nac yn angenrheidiol cyflwyno gwelliant ar gyfer darparu manylion polisi yn adran 11 o'r Bil. Bydd dogfennau ategol y Bil a'r cynlluniau a grëir o dan y Bil yn rhoi manylion y polisïau sy'n sail i adran 11. Gall y polisïau sy'n sail i bwnc adran 11 amrywio yn ôl pob cynllun cymorth a sefydlir o dan adran 8. I fod yn gymwys byddai gan welliant y potensial o gyfyngu ar ein gallu i ymateb yn effeithiol i amodau sy'n newid a'r angen posibl am fecanweithiau cymorth hyblyg.

Mae'r broses gyd-lunio ac ymgynghori ar gyfer y prif gynllun cyflawni, y CFfC, yn parhau a bydd yn mynd drwy gyfnod o ymgynghori yn ddiweddarach eleni. Bydd y manylion am y polisïau sy'n sail i bwnc adran 11, gan gynnwys egluro pwrpas gwirio cymhwysedd am gymorth yn cael ei egluro yn yr ymgynghoriad ac yn nogfennaeth y cynllun yn y pen draw.

Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 11 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 14.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adrannau 6, 8, 10, 11 a 13 o’r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wneud rheoliadau ym mhob achos

**Heb ei dderbyn**

Rhestrir yr adrannau y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad yn adran 47(7) ac maen nhw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (yn unol ag adran 47(6)), sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth gan y Senedd cyn i unrhyw reoliadau gael eu gwneud. Mae'r broses hon yn darparu craffu digonol sy'n gymesur ac yn briodol ar gyfer y pwerau dan sylw.

Ar gyfer pob un o'r adrannau y cyfeirir atynt, ystyrir bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wneud rheoliadau’n ddiangen hefyd oherwydd cwmpas pob darpariaeth. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau monitro ac adrodd manwl a chynhwysfawr er mwyn sicrhau atebolrwydd ac i hwyluso gwaith craffu parhaus ar weithredu'r ddyletswydd RhTG a symud ymlaen ar sail yr amcanion.

Mae adran 6(10) yn cyfeirio at y cyfnod adrodd ar gyfer adroddiadau RhTG. Ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnwys darpariaeth i ymgynghori ar ddiwygio'r cyfnod adrodd, ar y sail y bydd unrhyw newidiadau i'r cyfnod adrodd yn debygol o fod yn dechnegol eu natur er mwyn sicrhau bod y cyfnodau adrodd RhTG yn cyd-fynd â'r Adroddiadau Effaith (adran 13) i'r graddau y mae'r Adroddiad Effaith yn rhagflaenu Adroddiad RhTG, ac fe'i hystyrir yn un o'r adroddiadau allweddol sy'n darparu gwybodaeth tuag at gyflawni amcanion RhTG. At hynny, mae Adran 6 o'r Bil yn ymwneud â pharatoi'r adroddiadau RhTG gyda darpariaethau sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill) adrodd ar y cynnydd cronnus a wnaed tuag at gyflawni amcanion RhTG, a yw targed wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd, ac adrodd ar y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas â chyflawni'r amcanion hynny.

`

| |
|---|
| Credaf fod y darpariaethau hyn yn darparu atebolrwydd a thryloywder sylweddol ac nid oes angen gofyniad i ymgynghori, yn enwedig o gofio ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar osod y targedau a'r dangosyddion (adran 5) a fydd yn pennu naws a chyfeiriad yr adroddiadau y manylir arnynt o dan adran 6. Nid yw'n glir, pe bai yna bŵer i wneud rheoliadau ar gyfer ymgynghori ar yr adroddiad ei hun pa gamau ychwanegol y byddem yn ymgynghori arnynt, os o gwbl.<br><br>Mae adran 8 yn cyfeirio at y pŵer i ddarparu cymorth, gyda 8(4) yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer ychwanegu, dileu, gwella neu newid y dibenion yn is-adran 8(2). Mae is-adran 8(2) yn rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ddibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer, neu mewn cysylltiad â hwy. Nid oes angen ychwanegu darpariaeth i ymgynghori ar unrhyw welliannau, ychwanegiadau neu ddileu'r rhestr anghyflawn o ddibenion, gall cynnwys ymgynghoriad arwain at oedi cyn y gall Gweinidogion Cymru ymateb yn gyflym i newidiadau i flaenoriaethau'r llywodraeth neu'r sector.<br><br>Mae adran 10 yn cyfeirio at y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth. Mae'r adran hon yn ymwneud yn bennaf â darparu'r atebolrwydd a'r tryloywder priodol ar wario arian cyhoeddus. Mae adran 10(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol sy'n darparu'r lefel briodol o graffu, heb yr angen am ymgynghoriad.<br><br>Mae adran 11 yn ymwneud â gallu Gweinidogion Cymru i wirio pwy sy'n gymwys am gymorth. Proses bwysig sy'n helpu i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu bodloni ac yn darparu atebolrwydd am arian cyhoeddus. Mae adran 11 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol eisoes fel y nodir uchod a byddai ymgynghori ehangach ar fater mor angenrheidiol a thechnegol yn amhriodol.<br><br>Mae adran 13 yn cyfeirio at baratoi adroddiad effaith gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phob cyfnod adrodd. Diben cael pŵer rheoleiddio i ddiwygio'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad Effaith nad yw'n cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar ddiwygio'r cyfnod adrodd, sydd wedi'i bennu fel bob pum mlynedd ar hyn o bryd yn dilyn y cyfnod adrodd cyntaf, yw sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â'r adroddiad RhTG. Os yw'r amserlen ar gyfer y CFfC yn cael ei newid neu os oes newid i gyfnodau contract ffermwyr yna gallai hyn effeithio ar amseru'r adroddiadau effaith, a allai olygu na fyddant yn cyd-fynd gan leihau defnyddioldeb yr adroddiadau o bosibl. |
| **Argymhelliad 15**. Dylai'r Gweinidog egluro, mewn perthynas ag adrannau 15 ac 16, pam nad yw'r darpariaethau y nodir eu bod yn rhan o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 yn Nhabl 1 wedi'u cynnwys yn y Bil. Dylai'r eglurhad nodi beth y gellid ei gyflawni gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 15 ac 16 na ellid ei gyflawni gan ddefnyddio'r pwerau ym mharagraffau 2, 3 a 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020. |
| **Derbyn**<br><br>Nid oedd angen y rhestr o ddibenion a roddwyd yn Atodlen 5 Deddf |

`

| |
|---|
| Amaethyddiaeth 2020 gan fod y Bil yn cynnwys pwerau eang sy'n ymgorffori'r dibenion hyn. Cafodd pwerau eang y Bil yn adrannau 15 ac 16 eu drafftio i gynnwys pob posibilrwydd ac er mwyn sicrhau nad yw Gweinidogion Cymru'n cael eu cyfyngu yn eu pwerau addasu yn y ffordd y maent yn Neddf 2020.<br><br>O ran paragraff 3(2) a (3) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, nid oedd angen y rhain mwyach gan fod y newidiadau angenrheidiol wedi'u gwneud gan y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 a ddaeth i rym ar 17 Rhagfyr 2020. |
| **Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 18 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, pan fo'r pŵer cyfatebol o dan baragraff 6 Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Derbyn**<br><br>Rwy'n cytuno y dylai hyn fod yn gyson a byddaf yn cyflwyno gwelliant fel y bydd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 18 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil yn nodi'r dibenion ar gyfer gweithredu'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 15, 16, 17 ac 18 o'r Bil |
| **Heb ei dderbyn**<br><br>Nid wyf yn cytuno y byddai hyn yn briodol neu'n bosibl ei wneud heb gyfaddawdu ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i sefyllfaoedd sy'n newid. Er enghraifft, ni ellid bod wedi cynllunio ar gyfer y digwyddiadau annisgwyl diweddar fel pandemig COVID a'r rhyfel yn Wcráin hyd yn oed, yn enwedig mewn deddfwriaeth.<br><br>Dylai derbyn argymhelliad 18, i ddiwygio'r pŵer i wneud rheoliadau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, roi sicrwydd pellach. |
| **Argymhelliad 18.** Os na dderbynnir argymhelliad 17 a / neu os na fydd cyfyngiadau'n cael eu cymhwyso i weithrediad y pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 15, 16, 17 ac 18 o'r Bil, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant sy'n cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pwerau i wneud rheoliadau yn yr adrannau hyn |
| **Derbyn**<br><br>Byddaf yn cyflwyno gwelliant fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso i'r pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 15,16, 17 ac 18. |
| **Argymhelliad 19.** Dylid darllen Argymhellion 17 ac 18 fel rhai sy'n berthnasol i bob adran unigol |
| **Derbyn**<br><br>Mae'r argymhellion wedi cael eu hystyried yn unigol. O ran adrannau 15, 16, 17 a |

`

18, ni ystyriwyd ei bod yn briodol bwrw ymlaen â gwelliant fel y nodir yn argymhelliad 17.

Ystyriwyd ei bod yn briodol y dylid cymhwyso gwelliant ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau fel y nodir yn argymhelliad 18, i bob adran. Byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 47(7) ar gyfer pob un o adrannau 15, 16, 17 a 18 yn y drefn honno.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oes unrhyw amgylchiadau lle y gallai rheoliadau o dan adrannau 15, 16, 17 ac 18 o'r Bil ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac, os felly, pam na ddylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol

**Derbyn**

Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol gan fy mod yn derbyn argymhelliad 16.

**Argymhelliad 21.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adrannau 15, 16, 17 ac 18 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wneud rheoliadau ym mhob achos

**Heb ei dderbyn**

Rwyf wedi derbyn argymhelliad 18 i gyflwyno gwelliant fel bod rheoliadau a wneir o dan yr adrannau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hyn yn darparu ar gyfer y lefel briodol o graffu gan y Senedd, felly, nid oes angen cymhwyso dyletswydd i ymgynghori ar wneud y rheoliadau ar gyfer pob un o adrannau 15, 16, 17 ac 18.

**Argymhelliad 22.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys dyddiad terfyn ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd o gymorth amaethyddol o dan bennod 1 o Ran 2 y Bil. Os bydd darpariaeth yn cael ei chynnwys i ganiatáu dyddiad terfyn i gael ei ddiwygio gan reoliadau, dylai rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Heb ei dderbyn**

Rwyf wedi dweud yn y gorffennol na fyddwn yn terfynu Cynllun y Taliad Sylfaenol yn y Bil. Gwrandawodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar dystiolaeth gan randdeiliaid ar gynlluniau pontio a darparu ar gyfer terfynu'r Bil. Er bod undebau ffermio a sefydliadau amgylcheddol yn cytuno na ddylai ymyl dibyn o ran cymorth ariannol, roedd safbwyntiau amrywiol ar yr angen i ddeddfu ar gyfer cyfnod pontio neu 'fachlud'. Yn ei gasgliad ar y pwnc, nid yw Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymell darpariaeth fachlud.

Mae adran 15 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Cynllun y Taliad Sylfaenol, a fyddai'n caniatáu tapro taliadau yn ystod cyfnod pontio, gan ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i sicrhau na fydd newidiadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol yn cael eu gwneud nes bydd y cynllun newydd yn barod.

Bydd rhagor o fanylion am sut y bydd trosglwyddo i'r system newydd o gymorth amaethyddol yn rhan o'r ymgynghoriad CFfC terfynol.

**Argymhelliad 23.** Dylai'r Gweinidog egluro: ▪ sut y mae'n bwriadu diwygio adran 22 ac ymrwymo i sicrhau bod y manylion polisi perthnasol yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil ynghylch y newidiadau y mae'n eu cynnig mewn perthynas â rhoi diwedd ar ymyrraeth gyhoeddus a diwygio cynlluniau i gynorthwyo storio preifat; ▪ pam nad yw'n bosibl i'r manylion hyn gael eu cynnwys yn y Bil wrth ei gyflwyno.

**Heb ei dderbyn**

Bydd manylion polisi ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat yn y tymor byr yn cyd-fynd ag Offeryn Statudol y bwriedir ei gyflwyno gerbron y Senedd, gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020.

Mae datblygiad polisi sy'n ystyried diwygiadau pellach i Ddeddfwriaeth yr UE a Ddargedwir sy'n llywodraethu'r cynlluniau hyn yn parhau, felly ni fyddai manylion pellach ar wyneb y Bil yn briodol ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 24.** Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraffau 9(1), 9(2) a 9(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 wedi'u trosglwyddo i adran 22 o'r Bil ac, o ganlyniad, pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar y pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran honno.

**Derbyn**

Roedd geiriad y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraffau 9(1), 9(2) a 9(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 yn aneglur ac yn anodd ei ddehongli, felly mae'r testun wedi cael ei symleiddio er eglurder. Diben y darpariaethau yw caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddileu effaith Deddfwriaeth yr UE a Ddargedwir sy'n llywodraethu Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat.

**Argymhelliad 25.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n nodi'r dibenion ar gyfer gweithredu'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 22.

**Heb ei dderbyn**

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 22 yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau i ymdrin ag amrywiaeth o amgylchiadau brys a rhai na ellir eu rhagweld o bosibl. Gallai unrhyw restr o ddibenion gael yr effaith o gyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru pe bai senario'n codi nad yw ar y rhestr honno.

**Argymhelliad 26.** Os nad yw argymhelliad 25 yn cael ei dderbyn a / neu os na weithredir cyfyngiadau i weithrediad y pŵer i wneud rheoliadau, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 22.

**Derbyn**

Rwy'n cytuno a byddaf yn cyflwyno gwelliant i newid hyn i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 27.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 22 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wneud rheoliadau o dan yr adran honno

**Heb ei dderbyn**

Nid ydym o'r farn y dylai fod dyletswydd i ymgynghori ar bob darpariaeth gwneud rheoliadau yn y Bil. Mae risg y bydd Gweinidogion Cymru’n cael eu herio ar amhriodoldeb gweithdrefnol os na fyddwn yn ymgynghori yn unol â'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus a'n canllawiau ein hunain. Bydd rheoliadau o dan yr adran hon yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol, gan ganiatáu craffu ychwanegol gan y Senedd.

**Argymhelliad 28.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 29 o’r Bil i roi arwydd o beth y gall person ddisgwyl ei weld yn cael ei gynnwys mewn drafft o’r gofyniad y cyfeirir ato yn adran 29(1)(a)(i)

**Heb ei dderbyn**

Mae'r darpariaethau casglu data’n eang, yn cwmpasu hyd a lled y Bil, gan olygu y gellir casglu data ar draws dau faes gwahanol ond ategol, sef gan y rhai sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi bwyd-amaeth 24(1) a'r rhai sy'n ymgymryd â gweithgaredd perthnasol 26(1). Dim ond i hyrwyddo un neu ragor o ddibenion o blith rhestr benodol a chyfyngedig sydd wedi'u nodi yn y Bil y gellir casglu data, fel helpu i gynyddu cynhyrchiant, hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu fonitro ffynonellau cyflenwi ar gyfer bwyd.

Gall yr wybodaeth y rhagwelir sydd i'w chynnwys yn rhinwedd y darpariaethau casglu data yn y maes hwn amrywio o nifer y meithrinfeydd ledled Cymru, i fanylion am lefel y mawn a ddefnyddir mewn gwrtaith, ac ati. Bydd y gofyniad, yn amrywio, felly, yn ôl y pwrpas y mae ei angen ar ei gyfer yn ogystal ag yn ôl y rhai y mae angen casglu'r data ganddynt.

Mae'r ddarpariaeth yn nodi eisoes bod yn rhaid cyhoeddi drafft o'r gofyniad. Bydd hyn yn nodi'r diben neu'r dibenion y bydd y data'n cael ei brosesu ar eu cyfer (sy'n gyfyngedig i'r dibenion hynny a nodir yn adran 28(4)), gwybodaeth am y rhai y mae'r gofyniad yn cael ei gymhwyso iddynt, a hefyd am gyfnod o bedair wythnos o leiaf ar gyfer sylwadau cyn i'r gofyniad gael ei osod. O dan y darpariaethau casglu data, bydd unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy’n gosod rhwymedigaethau i ddarparu gwybodaeth, ond yn gallu cael eu gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, gan roi pwerau craffu sylweddol i aelodau’r Senedd.

**Argymhelliad 29.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 31 o’r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am y polisïau sy’n sail i orfodi’r gofynion gwybodaeth, yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau neu feini prawf a ddylai fod yn berthnasol i wneud rheoliadau o dan yr adran hon.

**Heb ei dderbyn**

Ni ystyrir ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol cyflwyno gwelliant ar gyfer darparu mwy o fanylion nag sydd eisoes yn bodoli yn adran 31 o'r Bil. Mae dogfennau ategol y Bil yn darparu gwybodaeth am y polisïau sy'n sail i orfodi’r gofynion gwybodaeth a all amrywio yn ôl diben casglu’r data, ac ym mhob achos bydd angen gosod gofyniad penodol.

Er ei bod yn bwysig cael proses orfodol o gasglu data, mae angen i unrhyw orfodaeth o'r gofynion fod yn gymesur, ac mae angen iddi fod yn ymwybodol o'r straen ariannol sy'n debygol o gael ei phrofi gan fusnesau mewn sefyllfaoedd o'r fath, felly ni fyddai cosbau gyda mwy o effaith ar fusnesau yn briodol.

Felly, mae’n bosibl y gallai cyflwyno gwelliant gyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gymesur ac effeithiol i amodau sy'n newid a'r angen posibl am hyblygrwydd.

Bydd gorfodi'r gofynion gwybodaeth yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol gan roi pwerau craffu sylweddol i aelodau'r Senedd.

**Argymhelliad 30.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil sy’n gwahardd yn benodol werthu data a ddarperir yn unol â gofynion y Bil

**Heb ei dderbyn**

Ni ystyrir hyn yn welliant angenrheidiol i'r Bil, am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol. O dan GDPR presennol y DU, nid yw'n ofynnol nodi'r hyn na fydd yn cael ei wneud gydag unrhyw ddata, dim ond yr hyn a wneir gyda'r data hwnnw.

At hynny, mae'r darpariaethau casglu a rhannu data yn y Bil yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o gyfyngiadau a mesurau diogelu sy'n ymwneud â'r dibenion y gellir casglu data ar eu cyfer a sut mae'r data i'w brosesu. Er enghraifft, dim ond wrth hyrwyddo un neu fwy o nifer penodol a chyfyngedig o ddibenion y gellir defnyddio data, megis helpu i gynyddu cynhyrchiant, hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu fonitro ffynonellau cyflenwi ar gyfer bwyd.

Mae'n parhau i fod yn bolisi ac yn fwriad ehangach gan Lywodraeth Cymru i beidio â gwerthu data ymlaen i drydydd partïon. Yn achos y Bil hwn, nid oes darpariaeth benodol sy'n caniatáu gwerthu data i drydydd partïon ac felly byddai gwerthu'r data hwnnw y tu allan i gwmpas y pwerau.

Yn unol â'n rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel Rheoleiddiwr y DU (Erthygl 36(4)) wrth ddrafftio deddfwriaeth sy'n effeithio ar brosesu data personol, mae swyddogion wedi ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y darpariaethau data yn y Bil. Mae hyn yn rhan o waith ymgysylltu parhaus ar bob agwedd ar gasglu data a diogelu data mewn perthynas â'r Bil. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn sicrhau bod y darpariaethau'n cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a ymgorfforir yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r broses ymgynghori statudol hon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelu.

Rwy'n deall bod Aelodau a rhanddeiliaid yn bryderus am benderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu GDPR y DU o bosibl, fodd bynnag, fel y dywedais yn flaenorol yn fy llythyr at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth y DU ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI) drafft. Yn unol â hynny, rwyf i a fy swyddogion yn parhau i weithio ar y sail bod GDPR y DU a deddfwriaethau diogelu data cyffredinol eraill sy'n bodoli yn parhau mewn grym tan y cyfryw amser y bydd Llywodraeth y DU yn eu diwygio neu’n eu disodli. Bydd angen ystyried unrhyw fersiwn newydd arfaethedig o GDPR y DU yn ofalus unwaith y bydd y manylion yn hysbys.

**Argymhelliad 31.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil sy’n dyblygu’r ddarpariaeth ynghylch diogelu data a geir ym mharagraff 19 o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

**Heb ei dderbyn**

`

Ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol i ddarpariaeth gyfatebol i baragraff 19 o Atodlen 5 gael ei hymgorffori ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) gan ei bod yn methu ag ychwanegu unrhyw beth sylweddol at y darpariaethau rhannu data. Bil i Gymru yw hwn, ac nid oes angen i ni ddeddfu yn yr un modd a Llywodraeth y DU.

Bydd angen i ddarpariaethau rhannu data'r Bil hwn barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gyffredinol, felly, mae'r diogelwch hwnnw'n dal i fodoli heb yr angen i ddeddfu'n uniongyrchol at y diben hwn gan ddefnyddio'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru).

**Argymhelliad 32.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu mwy o fanylion am y polisi sy'n sail i'r pwnc yn adran 32 (Safonau marchnata) ac adran 33 (Dosbarthiad carcasau), yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau neu feini prawf a ddylai fod yn berthnasol wrth wneud rheoliadau (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â phwerau mynediad a chosbau ariannol).

**Heb ei dderbyn**

Eglurir y gwaith o ddatblygu safonau marchnata a deddfwriaeth dosbarthu carcasau, sy'n sail i'r adran hon, yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil. Mae Rhan 2 o Adran 33 yn darparu rhestr nad yw'n gyflawn o'r darpariaethau gorfodi y gellid defnyddio'r pwerau ar eu cyfer.

Mae ystyried newidiadau polisi yn y dyfodol ar gyfer dosbarthu carcasau yn parhau, felly nid yw ar gael i'w gynnwys yn y Bil hwn.

Rhaid i reoliadau ynghylch safonau marchnata neu ddosbarthu carcasau gael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol fel y gall y Senedd graffu arnynt bryd hynny.

**Argymhelliad 33.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil ynghylch y rheoliadau i'w gwneud mewn perthynas â chosbau ariannol o dan adran 31 nag a geir mewn perthynas â'r rheoliadau i'w gwneud ynghylch cosbau ariannol o dan adrannau 32 a 33.

**Derbyn**

Mae adran 31 yn ymwneud yn benodol â maes gorfodi gofynion gwybodaeth sy'n wahanol iawn i orfodi mewn perthynas â safonau cynhyrchion. Barn Llywodraeth Cymru yw nad oes angen rhagor o fanylion mewn perthynas ag adran 32 a 33.

**Argymhelliad 34.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adrannau 32 a 33 i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wneud rheoliadau o dan bob adran

**Heb ei dderbyn**

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori bob amser ar unrhyw Offerynnau Statudol a wnaed yn y meysydd yn adran 32 a 33, oni bai bod y newidiadau'n dechnegol eu natur.

Mae amrywiaeth eang o feysydd y mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori arnynt ac nid ydym o'r farn y dylai fod dyletswydd ar bob darpariaeth yn y Bil. Mae

risg y bydd Gweinidogion Cymru’n cael eu herio ar amhriodoldeb gweithdrefnol os na fyddant yn ymgynghori yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a'u canllawiau eu hunain.

**Argymhelliad 35.** Dylai’r Gweinidog egluro pam mae Atodlen 1 y Bil yn croesgyfeirio at dablau a gynhwysir yn yr Atodiadau i’r Rheoliad Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd, yn hytrach na bod y tablau eu hunain yn cael eu hatgynhyrchu.

**Derbyn**

Byddai efelychu'r tablau yn gam helaeth ac ni fyddai'n gwella hygyrchedd yn ddigonol i gyfiawnhau gwneud hynny. Ystyrir y croesgyfeiriadau’n ddigonol ac yn unol â darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at Drefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd.

**Argymhelliad 36.** Dylai’r Gweinidogion gyflwyno gwelliannau i Atodlen 1 i’r Bil i gynnwys manylion perthnasol y tablau y cyfeirir atynt ar hyn o bryd yn yr Atodlen hwnnw, er mwyn hwyluso’r hygyrchedd i ddarllenwyr y Bil.

**Heb ei dderbyn**

Byddai efelychu'r tablau yn gam helaeth ac ni fyddai'n gwella hygyrchedd yn ddigonol i gyfiawnhau gwneud hynny. Ystyrir y croesgyfeiriadau yn ddigonol ac yn unol â deddfwriaethau eraill sy'n cyfeirio at Drefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd.

**Argymhelliad 37.** Er mwyn sicrhau hygyrchedd Rhan 4 y Bil, rydym yn argymell bod yr hyn sy’n cyfateb i Atodiad 4 i’r Memorandwm yn cael ei ailgyhoeddi os oes angen, os a phryd y bydd y Bil yn cael ei basio gan y Senedd ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Derbyn**

Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ynghyd â'i Atodiadau i adlewyrchu'r holl welliannau ar ddiwedd pob un o'r camau perthnasol ac ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Argymhelliad 38.** Dylai’r Gweinidog egluro a ystyriwyd Bil annibynnol sy’n gysylltiedig â choedwigaeth a pham na fabwysiadwyd dull o’r fath.

**Derbyn**

Mae'r gwelliannau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 sy'n cael eu cynnig yn gydlynol i gwmpas y Bil. Mae'r gwelliannau'n galluogi amddiffyniad gwell yn erbyn niwed amgylcheddol yn ystod gweithrediadau cwympo coed, yn unol â thrydydd amcan RhTG y Bil sy'n ymwneud â chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Mae coedwigaeth a rheoli coedwigaeth yn rhan annatod o sicrhau canlyniadau rheoli tir cynaliadwy yn ein hymateb i newid hinsawdd. Mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'n camau i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ail amcan RhTG y Bil.

Mae'r Bil yn darparu mecanwaith addas ac amserol ar gyfer eu cyflwyno a chafodd hyn ei gydnabod yn ymatebion y rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn.

**Argymhelliad 39.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i arolwg o Ran 4 o’r Bil gael ei gynnal o fewn tair blynedd i’r Bil gychwyn

**Heb ei dderbyn**

Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth o fewn 3

blynedd i gychwyn diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae cynnal adolygiad ar ôl gweithredu’n rhan arferol o gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

**Argymhelliad 40.** Er mwyn sicrhau hygyrchedd Rhan 5 o’r Bil, rydym yn argymell bod yr hyn sy’n cyfateb i Atodiad 4 i’r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ailgyhoeddi, a’i ddiwygio os oes angen, os bydd y Bil yn cael ei basio gan y Senedd ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Derbyn**

Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ynghyd â'i Atodiadau i adlewyrchu'r holl welliannau ar ddiwedd Cyfnod 2, cam 3 ac eto ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Argymhelliad 41.** Dylai’r Gweinidog egluro a ystyriwyd Bil annibynnol ‘sy’n gysylltiedig â bywyd gwyllt’ a pham na fabwysiadwyd dull o’r fath.

**Derbyn**

Mae cyflwyno gwaharddiad ar y defnydd o faglau yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Llywodraethu ac o'r herwydd yn flaenoriaeth ar gyfer tymor y llywodraeth hon.

Ystyriwyd  Bil annibynnol 'cysylltiedig â bywyd gwyllt' wrth ddatblygu'r Bil Amaethyddiaeth. Fodd bynnag, mae cyfraith Bywyd gwyllt yn eang a chymhleth, ac yn cwmpasu sawl darn o ddeddfwriaeth, mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd yn y rhan fwyaf o feysydd ond nid pob un. Mae cyfuno cyfraith bywyd gwyllt yn rhywbeth y mae swyddogion yn ei ystyried ond ni fyddai cyflwyno Bil Bywyd Gwyllt yn y Senedd hon yn bosibl.

Bydd cael y pwerau hyn yn y Bil hwn yn sicrhau bod y newid pwysig hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyfle deddfwriaethol cynharaf mewn cam pwysig ymlaen ym maes safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.

**Argymhelliad 42.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i gymhwyso’r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir o dan adran 46 sy’n addasu deddfwriaeth sylfaenol (fel y caniateir gan adran 46(2).

**Heb ei dderbyn**

Nid oes angen cyflwyno gwelliant at y diben hwn. Mae adran 47(8) o'r Bil yn sicrhau bod unrhyw addasiad i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol eisoes.

**Argymhelliad 43.** Mewn perthynas ag adran 50 o’r Bil, dylai’r Gweinidog: ▪ egluro pam mae angen y pŵer; ▪ egluro pam mae pŵer hynod o eang yn cael ei ddefnyddio pan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i’w ddefnyddio ar hyn o bryd; ▪ darparu enghreifftiau penodol o sut y gellid diwygio’r diffiniad o amaethyddiaeth a gweithgaredd ategol; ▪ egluro pam y byddai rheoliadau yn ddull mwy priodol ar gyfer llywodraeth yn y dyfodol i wneud newidiadau polisi arwyddocaol o bosibl yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol.

**Derbyn mewn egwyddor**

`

| |
|---|
| Mae adran 50 yn darparu'r pŵer i ddiwygio adrannau 48 a 49 drwy reoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i fod yn ymatebol i'r heriau a'r cyfleoedd yn y sector yn y dyfodol. Lle nodir arferion datblygol, da a newydd yn y sector, ni fyddem am eu gweld yn cael eu heithrio o'r pwerau yn y Bil a'n ffermwyr ddim yn cael eu cefnogi.<br><br>Fel llywodraeth mae angen i ni allu ymateb i newid mewn arferion amaethyddol er mwyn sicrhau y gellir darparu cymorth os oes angen.<br><br>Mae hwn yn Fil uchelgeisiol a thrawsnewidiol ac mae'r diffiniad yn cynnwys gweithgareddau sy'n berthnasol i'r ffermwr cyfoes (fel Amaethyddiaeth Amgylcheddol a Reolir). Wrth i ddulliau rheoli tir newid yn y dyfodol, gan gynnwys o ganlyniad i arferion a alluogir gan y Bil hwn, mae'r pŵer hwn yn rhoi'r gallu i sicrhau y gellir diwygio'r diffiniad ac y gellir darparu cymorth, os yw'n hynny'n addas.<br><br>Ystyrir bod rheoliadau’n gyfrwng mwy priodol i Lywodraethau'r dyfodol ddiwygio'r diffiniad. Os bydd angen gwneud newidiadau i'r diffiniadau presennol, yna gallai fod yna oedi hir am gyfrwng deddfwriaethol sylfaenol priodol i weithredu'r newid hwnnw, tra bod modd gwneud newidiadau drwy reoliadau gan ddefnyddio pwerau presennol yn llawer cyflymach i ymateb i'r newidiadau hynny. Gweler yr ymateb i argymhelliad 44 isod hefyd. |
| **Argymhelliad 44.** Os yw’r Gweinidog yn penderfynu cadw adran 50, dylai gyflwyno gwelliant i’r Bil yn cymhwyso’r weithdrefn uwchgadarnhaol i’r pŵer i wneud rheoliadau i gynnwys gofyniad: ▪ i ymgynghori (a chyfnod gofynnol ar gyfer yr ymgynghori hwnnw) gan gynnwys gyda phwyllgorau’r Senedd, ac; ▪ i wneud datganiad cyn y gwneir unrhyw reoliadau o’r fath, yn nodi manylion canlyniad yr ymgynghoriad (gan gynnwys meysydd y cytunir ac yr anghytunir arnynt gyda rhanddeiliaid) ac, yn unol â hynny, sut y mae’r rheoliadau wedi rhoi ystyriaeth i ymgysylltiad â rhanddeiliaid |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae adran 50 i'w chadw am y rhesymau a amlinellir uchod mewn ymateb i argymhelliad 43.<br><br>Sylwch hefyd ar yr ymateb i argymhelliad 2 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig sy'n ymdrin â'r un materion mewn perthynas ag adran 50.<br>Mae swyddogion yn ymgysylltu â swyddogion drafftio'r llywodraeth i archwilio'r ffordd orau o gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i adran 50. Nid oes templed sefydlog ar gyfer offerynnau statudol gweithdrefn uwchgadarnhaol ac felly mae amrywiaeth o opsiynau'n cael eu harchwilio. Gallai hyn gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r Senedd cyn i unrhyw welliant i adrannau 48 a 49 gael eu cyflwyno'n ffurfiol fel rhan o'r weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Y bwriad polisi presennol yw y bydd unrhyw ddiwygiad i'r broses adran 50 yn cynnwys manylion am y math o ymgynghoriad sydd i'w gynnal a hyd yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd hyn yn golygu y gellir craffu'n ychwanegol ar unrhyw newidiadau i adrannau 48 a 49 a'u trafod ymhellach. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i weithdrefn uwchgadarnhaol bwrpasol ar hyn o bryd. |